# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **4ydd o Fedi** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard (Pentrefelin), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), John Till, Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Gwenno Emlyn Huws, Jess Williams (Penmorfa), John Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones (Pentrefelin) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Clifford Williams (Garndolbenmaen) |
| 4. | Datgan Buddiant: | Gwilym Evans (Eitem 16)<br>Megan Lloyd Williams (Eitem 16) |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | Gwilym Evans yn cynnig a Enid Egginton yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **Lôn gul Garndolbenmaen –** JJ wedi cael sgwrs gydag Iwan ap Trefor. Cyfarfod safle wedi'i drefnu ar y 23ain o Fedi am 10am. Soniodd JJ bod y Cyngor wan yn ceisio mapio ffyrdd cul sydd yn achosi trafferthion yn yr ardal.<br><br>**Gwyriadau Ffordd** - gofynnwyd i'r Clerc gysylltu hefo'r Cyngor i atgoffa hefo gwyriadau. Mae yna achosion ble mae ffyrdd yn cael eu cau yn ddiangen a hefyd ble mae gwyriadau ffôl yn cael eu gosod. |
| 7. | Mynwentydd: | **Trwsio Wal Mynwent Llanfihangel y Pennant** - Gofynnwyd i'r contractwyr ail roi pris oedd yn cynnwys yr holl waith oedd angen ei wneud ar y wal. Penderfynwyd derbyn pris Wayne Mitchelmore. Clerc i gysylltu ag o.<br><br>**Torri'r Goeden ym Mynwent Llanfihangel y Pennant** - Cafwyd pris gan bedwar cwmni lleol. Penderfynwyd derbyn pris gan Wasanaethau Coed GBA.<br><br>Adroddwyd bod yna un neu ddau o ganghennau angen eu torri ar hyd y llwybr o'r bont i'r fynwent. Clerc i ofyn wrth Gwasanaethau Coed GBA os all eu torri tra'n gweithio ar y goeden Onnen yn y fynwent.<br><br>**Cytundeb Gwastraff Veolia** - Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoi rhybudd i Veolia yn nodi nad yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno adnewyddu'r cytundeb gwastraff yn awtomatig ar y 17eg o Hydref. Mae'r Clerc wedi gofyn am bris gan Veolia a Williams a Williams Cyf ar gyfer biniau gwastraff cyffredinol a biniau ailgylchu plastig a gwydr. |

| | | |
|---|---|---|
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | **Llwybr Golan** ger y Ganolfan Gymdeithasol – mae difrod wedi cael ei wneud i wal y Ganolfan. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.<br><br>**Llwybr 5** - Dewi Owen o'r Uned Llwybrau yn mynd allan i ymweld ar lwybr yma yn y dyddiau nesaf er mwyn gweld pa waith sydd ei angen. Roedd Dewi wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned drefnu i dorri'r llwybr yn y cyfarfod safle diwethaf er mwyn iddo allu gweld y llwybr yn glir.<br>. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | **Pentrefelin –** Gwair o flaen Tre'r Ddol wedi'i dorri.<br><br>**Golan** - Adroddodd MWL bod Dŵr Cymru wedi glanhau'r garreg gwybodaeth ond mae angen ail beintio'r ysgrifen.<br><br>Soniodd hefyd bod ochr chwith y ffordd i lawr tuag at y gronfa ddŵr o Tyddyn angen sylw.<br><br>Clerc i adrodd am y materion uchod i Dŵr Cymru.<br><br>Soniwyd bod yna grid gwartheg (y 3ydd o gyfeiriad Cwmystradllyn) angen sylw brys. Adroddodd SCH ei fod yn aros i glywed yn ôl gan arolygwr o Gyngor Gwynedd. Soniodd GE ei fod yn meddwl ei fod wedi cael ei drwsio.<br><br>Lloches bws ger Clennenau angen sylw - mae'r ardal o'i amgylch angen ei glirio. Clerc i gysylltu gyda Thîm Tacluso Ardal Ni i weld os allent ei wneud.<br><br>**Garndolbenmaen** - Adroddodd EE nad yw llochesi bws Traws Cymru yn rhoi unrhyw fath o gysgod rhag y glaw. Clerc i adrodd am hyn i'r Uned Drafnidiaeth Gyhoeddus.<br><br>Soniwyd mai 14 disgybl sydd yn yr ysgol.<br><br>Adroddwyd fod Pwyllgor y Neuadd wedi cytuno i gymryd y diffibriliwr gan yr ysgol.<br><br>Soniodd SCH ei fod wedi cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i ofyn iddynt ystyried rhoi *"right hand filter lane"* ar y gyffordd sydd yn troi am Garndolbenmaen gan fod pryder am ddiogelwch y gyffordd.<br><br>**Bryncir –** Codwyd pryder am ddiogelwch y safle bws unwaith yn rhagor. Mae yna blant yn y pentref sydd yn cael eu gollwng yno oddi ar y bws ysgol ac maent yn gorfod camu allan i'r ffordd er mwyn gallu gweld i groesi.<br><br>Cyffordd Glandwyfach - Soniwyd bod yna ddamwain arall wedi bod yma yn ddiweddar a bod adroddiadau gan breswylwyr cyfagos bod yna gyrn ceir yn cael eu defnyddio yn aml sydd yn awgrymu bod yna nifer o ddamweiniau bu bron â digwydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Soniodd SCH ei fod wedi cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i ofyn iddynt ystyried rhoi cylchfan yn Glandwyfach yn lle cyffordd.<br><br>Clerc i gysylltu gyda'r Heddlu parthed cerbydau yn goryrru drwy'r pentref. Clerc hefyd i gysylltu gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd parthed Bryncir a hefyd cyffordd Glandwyfach.<br><br>**Penmorfa –** Adroddwyd nad oes diffibriliwr yn y pentref. Soniodd IE ei fod wedi derbyn e-bost gan elusen sydd yn cynnig gosod diffibriliwr. Cynghorwyd y byddai'n rhaid i'r gymuned godi'r arian i gael un i'r pentref.<br><br>Adroddwyd fod yna Japanese Knotweed yn y cae chwarae. IE i gysylltu gyda'r contractwr wnaeth y gwaith o'r blaen.<br><br>Adroddwyd am bryder cyflymder traffig drwy'r pentref. Mae'r cyfyngiad cyflymder o 20mya yn cael ei anwybyddu gan lawer.<br><br>Clerc i gysylltu gyda'r Asiantaeth Gefnffyrdd i weld a yw'n bosib cael arwyddion sydd yn paratoi gyrwyr fod yna gyfyngiad cyflymder o 20mya wrth deithio o gyfeiriad Caernarfon.<br><br>**Prenteg –** Adroddwyd pryder am gyflwr a diogelwch garej 4 Tan y Bryn, Prenteg. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.<br><br>Soniodd GE fod gan Fywyd Gwyllt Glaslyn apêl o'r new Apêl Traeth Bach ble maent yn gobeithio gallu prynu 16 erw o borfa gorlifdir ar lan Afon Glaslyn, gan gynnwys safle ymwelwyr presennol Gweilch Glaslyn. Maent yn gobeithio gallu adfer y tir i greu hafan ffyniannus i fywyd gwyllt ac yn llecyn tawl braf i'r gymuned. Mae yna ddiwrnod agored yn y Ganolfan ym Mhrenteg ar ddydd Mawrth y 7fed a dydd Iau'r 9fed o Hydref rhwng 2 a 7 o'r gloch. Mae yna groeso i bawb fynychu er mwyn darganfod mwy am yr apêl yma. |
| 10. | Loriau a Llywio â Lloeren | Adroddodd GE bod yna bedwar digwyddiad wedi bod yn ddiweddar ble mae loriau wedi mynd i drafferth am eu bod yn defnyddio teclynnau llywio â lloeren anaddas i loriau a hefyd oherwydd diffyg arwyddion clir yn nodi nad yw'r ffyrdd yn addas. Soniwyd bod yna lori wedi mynd i drafferth ar y ffordd drosodd i Hendre Hywel, Prenteg o gyfeiriad Cwmystradllyn, dwy lori wedi gwrthod mynd o dan y bont cyn Beddgelert ac wedi gorfod bacio'r holl ffordd i Brenteg a lori wedi ceisio mynd i fyny lôn Tabor, Pentrefelin. Clerc i adrodd am y trafferthion yma i Uned Traffig, Cyngor Gwynedd. |
| 11. | Ceisiadau Grant Diweddar | Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn grant Gwynedd Ni gan Gyngor Gwynedd er mwyn prynu offer fideo-gynadledda i'r neuaddau pentref a hefyd hysbysfwrdd newydd i Benmorfa. Penderfynwyd ffurfio is-bwyllgor i ymgymryd ar brosiect yma. Cynigwyd yr enwau canlynol: Iddon, Steve,Gwilym, Raymond a John Till. Clerc i gysylltu gyda'r neuaddau pentref i |

| | | |
|---|---|---|
| | | gychwyn i weld os ydynt yn fodlon derbyn y rhodd a hefyd storio'r offer.<br><br>Gan ein bod wedi bod yn llwyddiannus gyda Grant Ardal Ni, adroddodd y Clerc ei bod wedi tynnu cais yn ôl o Gronfa Cymunedau Eryri gan ein bod yn hawlio am yr un pethau. |
| 12. | Polisi Cwynion Dienw | Cafodd yr awgrym o greu polisi cwynion dienw ei godi yn dilyn derbyn cwynion dienw parthed Mynwent Prenteg. Bu i'r Clerc ar y pryd gysylltu gydag Unllais Cymru a'r cyngor a dderbyniwyd oedd na ddylai'r Cyngor Cymuned ymdrin â chwynion di enw oherwydd y gallent fod yn faleisus. Penderfynwyd holi Unllais Cymru i weld os oes ganddynt dempled ar gyfer creu polisi o'r fath. |
| 13. | Cyflog Clerc – Cytundeb Cyflog Clerc 25/16 | Mae Cytundeb Cyflog Clerc 25/26 wedi'i benderfynu. Bydd cyflog y clerc yn codi o £13.67 yr awr i £14.13 yr awr. Bydd angen ôl daliad yn ôl i Ebrill 2025. |
| 14. | Gohebiaeth | a. Bethan Williams – Gwynedd Oed Gyfeillgar. Penderfynwyd gwahodd Bethan i'r cyfarfod nesaf.<br>b. Rhybudd Caead Argyfwng – ffordd o gyffordd yr A497 i Borth yr Hirfaen, Treflys. Dyddiad wedi pasio. |
| 15. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Mabon ap Gwynfor - Ymateb BCUHB i Gyngor Cymuned Dolbenmaen parthed diffyg cadeiriau yn Ysbyty Gwynedd<br>b. Cyngor Cymuned Llanengan – Cyfarfod Diffibriliwyr – soniodd y clerc ei bod am geisio mynd i hwn. |
| 16. | Cynllunio | **Rhestrau:**<br>Gorffennaf – 30/6, 7/7, 14/7, 21/7 a 28/7<br>Awst - 4/8, 11/8, 18/8<br><br>**C25/0479/36/DT -** Cartref, Pentrefelin, LL52 0PU<br>Estyniad un llawr gyda newidiadau i ffenestri – Ni dderbyniwyd ateb i'r cais. Dyddiad wedi mynd heibio.<br><br>**C25/0346/36/LL -** Chwarel Bryncir, Llystyn Gwyn, Bryncir, LL51 9LX - Codi a gweithredu offer sypynnu concrit sefydlog, 3 seilo deunyddiau ac offer cysylltiedig i ddisodli offer a seilo symudol presennol. Ni dderbyniwyd ateb i'r cais. Dyddiad wedi mynd heibio.<br><br>**C25/0522/36/RC -** 1 Cae'r Coed, Garndolbenmaen, LL51 9TQ<br>Tynnu cytundeb Adran 106 angen lleol – Dim gwrthwynebiad.<br><br>**NP2/16/451C -** Tir ger Pen y Bryn, Penmorfa, LL49 9SB<br>Adeiladu un tŷ (dosbarth defnydd C3). Dim gwrthwynebiad.<br><br>**C25/0575/36/YA -** Ystum Cegid Uchaf, Garndolbenmaen, LL51 9PJ - Codi adeilad amaethyddol ar gyfer porthiant anifeiliaid. Dim gwrthwynebiad.<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>**C25/0612/36/LL -** Tyddyn Ysguboriau Tabor Lane, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0RA. Dim gwrthwynebiad. |

| | | |
|---|---|---|
| 17. | Materion Ariannol | Materion Ariannol<br><br>Ceisiadau am arian: Dim<br><br>Monitro'r Gyllideb:<br><br>Biliau i'w talu:<br><br>Awst<br>Cyflog Clerc £331.73<br>Ffôn £15.00<br>Cyfrifiadur £20.00<br>HMRC £82.80<br>Veolia £36.26<br>HSBC £9.00<br>Madog Gardencare £870.00 (Talwyd 14/8/25)<br><br>Medi<br>Cyflog Clerc £331.73<br>Ffôn £15.00<br>Cyfrifiadur £20.00<br>HMRC £82.80<br>Veolia £28.79<br>Madog Gardencare £170.00<br>Costau Gweinyddol Clerc £228.76<br>Unllais Cymru £42.00 (Hyfforddiant Sgiliau Cadeirio)<br>Ôl-daliad Clerc £53.57<br>HMRC £13.39<br>Hughes -Jones a Dyson & Co £384.00 (cynnwys TAW)<br><br>**** Cymeradwywyd i dalu'r uchod.**<br><br>Derbyniadau - ychwanegwyd £9,000 (Praesept)<br><br>Balansau Cyfrifon:<br>Cadw – £43,683.12<br>Cyfredol - £4,336.36<br><br>**** Clerc i wirio cyfradd llog presennol y cyfrif cadw** |
| 18. | Dewis Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan | Loriau a Llywio â Lloeren<br>Mynwent Llanfihangel y Pennant<br>Grant Ardal Ni |